

SL(6)046 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

Cefndir a diben

Mae [Rheoliadau Addysg \(Benthyciadau i Fyfyrrwyr\) \(Ad-dalu\) \(Diwygio\) \(Rhif 3\) 2021](#) ("Rheoliadau 2021") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009").

Mae Rheoliadau 2009 yn darparu'r sylfaen ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrrwyr a wnaed gan Weinidogion Cymru ac maent yn cynnwys darpariaeth i godi llog ar fenthyciadau myfyrrwyr.

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio Rheoliadau 2009 i bennu cyfradd llog uchaf ar fenthyciadau myfyrrwyr, gan arwain at godi cyfradd llog is ar fenthycwyr Cymru gyda benthyciadau Cynllun 2 neu Gynllun 3. Benthyciadau israddedig ôl-2012 yw benthyciadau Cynllun 2 a benthyciadau gradd ôl-raddedig yw benthyciadau Cynllun 3. Bydd y cyfraddau'n berthnasol am gyfnod penodol o dri mis, pan fyddant yn cael eu hail-asesu.

Darperir ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrrwyr yn Rheoliadau 2009, a wneir ar sail gyfansawdd. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny a drosglwyddwyd iddynt, gan Weinidogion Cymru. Gweinidogion Cymru sy'n deddfu mewn perthynas â Chymru o ran y swyddogaethau hynny a drosglwyddwyd iddynt a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr ac, i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw swyddogaethau, mewn perthynas â Chymru. Mae Rheoliadau 2021 hefyd yn rheoliadau cyfansawdd.

Hefyd, gwneir Rheoliadau 2021 gan Weinidogion Cymru er mwyn cydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau bod cyfradd llog benthyciad myfyrrwyr naill ai yn is na Chyfradd Gyffredinol y Farchnad, neu'n gyfartal â Chyfradd Gyffredinol y Farchnad gyda thelerau ac amodau gwell. Trwy gadw cyfraddau llog yn is na Chyfradd Gyffredinol y Farchnad, mae Rheoliadau 2021 hefyd yn ceisio sicrhau bod benthyciadau myfyrrwyr yn parhau i fod wedi'u heithrio o'r Gyfarwydddeb Credyd Defnyddwyr, sy'n golygu na fyddant yn ymddangos ar ffeil credyd benthyciwr ac o bosibl yn effeithio ar eu statws credyd.

Gweithdrefn

Negyddol cyfansawdd.

Gwnaed Rheoliadau 2021 gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig. Caiff y Senedd ddirymu Rheoliadau 2021 o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y



Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu Rheoliadau 2021, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae Rheoliadau 2021 wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, sy'n golygu bod Rheoliadau 2021: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU.

O ganlyniad, gwnaed Rheoliadau 2021 yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

"The 2021 Regulations are composite regulations. As the Regulations will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually. Therefore, the amending regulations are made in English only."

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

14 Medi 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee